

Cylchlythyr | Circular

Cyllid Grant Cymorth Sefydliadol y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF) ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-2024 a 2024-2025

Dyddiad: 06 Rhagfyr 2023
Cyfeirnod: W23/32HE
At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: 12 Rhagfyr 2023
Cysylltwch â: Enw: Hywel Edwards
E-bost: hywel.edwards@hefcw.ac.uk

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cael cyllid gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) i gefnogi gweithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) o fewn sefydliadau addysg uwch (SAU) Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-2024 (£1,455,001) a 2024-2025 (£1,182,247). Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi manylion am sut y bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, y wybodaeth y mae ei hangen ar sefydliadau i dderbyn eu dyraniadau cyllid a'n dull o fonitro.

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost at info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae CCAUC wedi cael cyllid gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) i gefnogi gweithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) o fewn sefydliadau addysg uwch (SAU) Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol (Bl. Ar.) 2023-2024 (Bl. Ar. 2023-24) a 2024-2025 (Bl. Ar. 2024-25).

Defnydd o gyllid

2. Dim ond i ariannu gweithgareddau ODA y gellir defnyddio'r grant, gyda'r prif ddiben o dargedu datblygiad economaidd a lles [gwledydd cymeradwy sy'n cael ODA](#) fel y'i diffinnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).
3. Mae DSIT yn disgwyl i ddyraniadau Grant Cymorth Sefydliadol y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF) ar gyfer Bl. Ar. 2023-24 gael eu gwario erbyn diwedd mis Mawrth 2024 er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth y DU o wario 0.5% o'r Incwm Gwladol Crynswth ar ODA. Sylwch y gellir ôl-ddyddio dyraniad Bl. Ar. 2023-24 i gefnogi gweithgareddau a ddechreuodd ar ôl i CCAUC gael cadarnhad o'r cyllid hwn gan DSIT (30 Hydref 2023).
4. Mae'r cyllid hwn yn darparu grantiau sefydliadol hyblyg y gellir eu defnyddio'n strategol i gefnogi gweithgareddau sy'n gymwys i ODA. Gall hyn gynnwys tanategu gweithgarwch ISPF a ariennir drwy bartneriaid cyflenwi eraill, neu drwy gefnogi'n uniongyrchol ymchwil sy'n mynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan wledydd sy'n datblygu nad ydynt yn cael eu hariannu drwy grantiau ISPF partneriaid cyflenwi eraill.
5. Ni ellir defnyddio Grant Cymorth Sefydliadol yr ISPF i ddarparu gweithgareddau o fewn, mewn partneriaeth â Tsieina neu sydd o fudd i Tsieina fel arall.

Dyraniadau Grant Cymorth Sefydliadol y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF) ar gyfer Bl. Ar. 2023-24 a Bl. Ar. 2024-25

6. Mae DSIT wedi darparu dyraniadau cyllideb o £1,455,001 i CCAUC ar gyfer Bl. Ar. 2023-24 ac £1,182,247 ar gyfer Bl. Ar. 2024-25.
7. Mae DSIT wedi nodi y dylid dyrannu'r cyllid yn unol â'r cyllid ODA hanesyddol y mae SAU wedi'i gael, gan gynnwys y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang (GCRF) a Chronfa Newton, yn ogystal â grantiau cystadleuol Cyngor Ymchwil y sefydliad Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) nas dynodwyd yn wreiddiol fel ODA y canfuwyd wedyn eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysra'r ODA (y cyfeirir atynt hefyd fel ODA arall).
8. Mae UKRI wedi rhoi dadansoddiad i CCAUC o enillion hanesyddol y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang a Chronfa Newton. Bydd cyllid ISPF yn cael ei ddyrannu pro-rata yn seiliedig ar yr enillion hanesyddol hyn a nodir gan UKRI.

9. O ystyried y byddai dyraniad pro-rata syth yn arwain at ddyraniadau bach mewn rhai achosion, mae CCAUC wedi penderfynu darparu cyllid i'r sefydliadau hynny a fyddai'n cael dyraniad blynyddol o £50,000 o leiaf yn unig. Gweler **Atodiad A**. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd gyda dyraniadau GCRF blaenorol (gweler y cylchlythyr [W18/02HE](#)) ac yn ystyried gorbenion gweinyddol posibl rheoli gweithgareddau ODA.
10. Mae CCAUC yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwario cyllid ar gyfer Bl. Ar. 2023-24 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O'r herwydd, mae'n rhaid i SAU y cynigir cyllid Grant Cymorth Sefydliadol ISPF iddynt gadarnhau eu bod yn dymuno cael y cyllid hwn erbyn **12pm dydd Mawrth, 12 Rhagfyr**. Gweler **Atodiad B**.
11. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n dewis cael y cyllid ddarparu crynodeb byr o sut y caiff y cyllid ei reoli, a manylion y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau mai dim ond i gefnogi gweithgareddau sy'n gymwys i ODA y caiff ei ddefnyddio.
12. Bydd dyraniadau ar gyfer Bl. Ar. 2023-24 yn cael eu talu ym mis Ionawr 2024. Bydd dyraniadau ar gyfer Bl. Ar. 2024-25 yn cael eu talu ym mis Mai 2024.
13. Os yw sefydliadau'n credu efallai na fyddant yn gallu defnyddio eu dyraniadau llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, yna dylent gysylltu â CCAUC cyn gynted â phosibl. Mae CCAUC yn cadw'r hawl i adennill unrhyw ran o ddyraniad SAU nad yw'n cael ei wario ar weithgareddau ODA o fewn y flwyddyn ariannol berthnasol, a bydd unrhyw gyllid a gaiff ei adennill yn y modd hwn yn cael ei ddychwelyd i DSIT.

Monitro blynyddol

14. Bydd yn ofynnol i sefydliadau sy'n cael cyllid gadw cofnodion priodol yn manylu ar y gweithgareddau a gefnogwyd gan gynnwys gwybodaeth berthnasol yn ymwneud â chydymffurfedd ODA.
15. I gynorthwyo'r gwaith o gasglu data, mae CCAUC wedi darparu templed monitro (gweler **Atodiad C**) sy'n cynnwys:
 - Crynodeb o'r gweithgareddau unigol a gefnogwyd
 - Crynodeb byr o weithgareddau unigol
 - Rhestr [y Pwyllgor Cymorth Datblygu \(DAC\)](#) o'r gwledydd sy'n cymryd rhan, gan gynnwys unrhyw bartneriaid mewn gwledydd DAC a gwledydd nad ydynt yn DAC
 - Cadarnhad bod y gweithgaredd yn cydymffurfio ag ODA fel y'i diffinnir gan yr [OECD](#)
 - Dyraniad cyllideb ar gyfer pob gweithgaredd
 - Adroddiad byr ar gynnydd
 - Unrhyw risgiau ar gyfer prosiectau mawr wedi'u nodi
16. Bydd angen i SAU roi templedi monitro wedi'u diweddarau i CCAUC, a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) maes o law, erbyn y dyddiadau canlynol:
 - 1 Mawrth 2024

- 1 Medi 2024
 - 1 Mawrth 2025
17. Gall sefydliadau fod yn destun archwiliad monitro ar hap gan CCAUC ar ran DSIT er mwyn casglu gwybodaeth astudiaethau achos sy'n dangos effaith y Gronfa, cydymffurfedd ODA, gwerth am arian ac ati. Mae CCAUC ar hyn o bryd yn gweithio gyda DSIT i gwblhau unrhyw ofynion monitro a bydd yn hysbysu SAU cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o unrhyw ofynion monitro ychwanegol.
 18. Weithiau mae DSIT yn cael ymholiadau ad hoc gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), Menter Tryloywder Cymorth Rhyngwladol (IATI) neu OECD ar ei ddata ODA. Os oes angen rhagor o wybodaeth, bydd disgwyl i SAU weithio gydag CCAUC i ymateb i ymholiadau data ychwanegol gan DSIT ar gymhwystra'r ODA, tryloywder data ac ati.
 19. Fel rhan o ofynion monitro'r cyllid hwn, mae'n ofynnol i SAU sy'n cael y grant hwn gynnwys y cyllid hwn yn eu hadroddiadau cyfrifyddu blynyddol arferol. Ceir rhagor o fanylion am ofynion monitro CCAUC a osodwyd gan DSIT yn **Atodiad D**.

Asesu effaith ein polisiau

20. Gan nad oes gan CCAUC unrhyw ddylanwad ar y dull o ddyrannu cyllid yn yr achos hwn, nid ydym wedi cynnal asesiad effaith. DSIT, fel perchnogion y gronfa hon, sy'n gyfrifol am asesu effaith.

Gwybodaeth ac ymateb pellach

21. Dylai sefydliadau gyflwyno eu dogfen **Atodiad B** wedi'i chwblhau drwy e-bost i hywel.edwards@hefcw.ac.uk erbyn **12pm dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023**.
22. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Hywel Edwards, Pennaeth Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu (hywel.edwards@hefcw.ac.uk).

Dyraniadau sefydliadol

	(ISPF) Cyllid Grant Cymorth Sefydliadol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024	(ISPF) Cyllid Grant Cymorth Sefydliadol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-2025
	£	£
Prifysgol Aberystwyth	277,258	225,284
Prifysgol Bangor	377,628	306,838
Prifysgol Caerdydd	450,904	366,378
Prifysgol Abertawe	349,211	283,748
Cyfanswm	1,455,001	1,182,247

Crynodeb o ofynion monitro ac adrodd grant cymorth sefydliadol ODA yr ISPF

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cyfeirir Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon), Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido'r Alban, a Research England at y cyrff cyllido addysg uwch (CCAU) isod. Mae sefydliadau addysg uwch (SAU) yn cyfeirio at ddarparwyr addysg uwch (e.e. prifysgol sydd yn y Deyrnas Unedig neu Ogledd Iwerddon, corfforaeth addysg uwch ac ati) sy'n gymwys i gael cymorth o gronfeydd a weinyddir gan gyrff cyllido addysg uwch.

1. Cydnabyddiaeth gan SAU o gymhwysra'r ODA

Bydd cyrff cyllido addysg uwch yn gofyn i SAU sy'n dderbynwyr i gadarnhau'n ysgrifenedig y byddant yn defnyddio grant cymorth yr ISPF i ariannu gweithgareddau Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) yn unig, gyda'r prif ddiben o dargedu datblygiad economaidd a lles ['gwledydd cymeradwy syn cael ODA](#) fel y'i diffinnir gan yr OECD. Bydd DSIT yn defnyddio adroddiad cyfrif blynyddol pob SAU i roi sicrwydd pellach bod arian wedi'i ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau y cytunwyd arnynt. Sylwch nad yw DSIT yn defnyddio cyllid ODA i gefnogi partneriaethau ymchwil ac arloesi gyda Tsieina. Cyhoeddodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) gynt ym mis Mai 2022 ei fod yn dod â gwariant BEIS ODA yn Tsieina i ben ym mis Mawrth 2023. Mae Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog sy'n amlinellu'r sefyllfa hon ar gael ar-lein [yma](#).

2. Adroddiadau RODA chwarterol gan gyrff cyllido addysg uwch

Bydd cyrff cyllido addysg uwch yn cyflwyno diweddariadau ariannol a gweithgarwch chwarterol ar system adrodd DSIT (RODA) ar gyfer pob SAU sy'n dderbynnydd. Dylai RODA adlewyrchu cyfanswm y cyllid ISPF y mae pob SAU yn ei gael ac yn ei wario fel un gweithgaredd (gweler y diagram isod). Wrth sefydlu RODA, bydd angen i gyrff cyllido addysg uwch gwblhau meysydd adrodd gorfodol gan ddefnyddio'r ymateb mwyaf priodol o restr ddiodyn i gwmpasu'r ystod eang o weithgareddau y gall SAU eu hariannu gan ddefnyddio eu dyraniad ISPF. Ar ôl eu sefydlu, bydd angen i gyrff cyllido addysg uwch ddarparu proffiliau gwariant chwarterol (gwirioneddol, rhagolygon) a dogfennu unrhyw ad-daliadau a gafwyd. Defnyddir y wybodaeth hon gan DSIT i gydymffurfio â gofynion adrodd gorfodol ODA e.e. [Menter Tryloywder Cymorth Rhyngwladol](#) (IATI), adroddiadau [Ystadegau ar Ddatblygiad Rhyngwladol](#) (SID), yn monitro cyfanswm gwariant ODA y DU fesul Blwyddyn Galendr a Blwyddyn Ariannol i gyrraedd y targed Incwm Gwladol Gros o 0.5%.

3. Adroddiadau diweddar ddwywaith y flwyddyn (sylwadau ar weithgarwch, risgiau) gan gyrff cyllido addysg uwch


Ddwywaith y flwyddyn ariannol, yn chwarteri 2 a 4, bydd cyrff cyllido addysg uwch yn cyflwyno adroddiadau Cynnydd sy'n rhoi manylion ychwanegol am amrywiadau proffil gwariant, cyflawniadau gweithgaredd ac unrhyw risg canfyddedig i holl weithgareddau'r ISPF. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024, dim ond un adroddiad cynnydd y mae DSIT yn ei ddisgwyl yn chwarter 4 o ystyried yr oedi. Nid yw DSIT yn disgwyl i adroddiadau cynnydd gael eu cyflwyno gan SAU unigol.

4. Ymatebion ad hoc i ymholiadau data ychwanegol gan gyrff cyllido addysg uwch ac SAU

Weithiau mae DSIT yn cael ymholiadau gan FCDO, OECD neu IATI ar ei ddata ODA. Bydd DSIT yn ymdrechu i ateb yr ymholiadau hyn gan ddefnyddio data y mae'r gyrff cyllido addysg uwch eisoes wedi'u darparu. Os oes angen rhagor o wybodaeth, disgwylir i gyrff cyllido addysg uwch ac SAU ymateb i ymholiadau data ychwanegol gan DSIT ar gymhwysra'r ODA, tryloywder data ac ati.

5. Archwiliad ar hap ad hoc ar weithgareddau ISPF SAU

Bydd DSIT yn cynnal archwiliadau sicrwydd ar hap ar SAU sy'n darparu gweithgareddau ISPF, i gasglu gwybodaeth astudiaethau achos sy'n dangos effeithiau'r Gronfa, gwerth am arian ac ati. Byddai hyn yn cael ei wneud yn anaml (unwaith y flwyddyn ariannol ar y mwyaf, ond yn annhebygol yn 2023-2024) gan ddefnyddio dull samplu ar hap i gasglu gwybodaeth am yr SAU sy'n gwario fwyaf ac mewn ffyrdd gwahanol. Bydd DSIT yn gweithio'n agos gyda phob corff cyllido addysg uwch yn casglu'r wybodaeth gan yr SAU, a DSIT yn cynnal y dadansoddiad.



Ffigur 1 – Crynodeb o'r lefel o ddata a adroddir ar RODA

Atodiad B

Grant Cymorth Sefydliadol y Gronfa Partneriaethau Gwyddoniaeth Rhyngwladol (ISPF)

Dylid e-bostio'r ffurflen hon wedi'i chwblhau i hywel.edwards@hefcw.ac.uk erbyn 12 Rhagfyr 2023.

Enw'r sefydliad	
Person cyswllt ar gyfer gohebiaeth ynghylch Grant Cymorth Sefydliadol yr ISPF.	
Enw	
Swydd	
E-bost	
Dyraniad ISPF ar gyfer Bl. Ar. 2023-24	
Dyraniad ISPF ar gyfer Bl. Ar. 2024-25	

1. Rhowch fanylion am sut y caiff y cyllid ei reoli, a'r prosesau a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cydymffurfio â'r ODA

Uchafswm o 250 o eiriau

Gofynnir i'r Is-Ganghellor (neu gynrychiolydd enwebedig) gadarnhau'r canlynol:	
Mae'r brifysgol yn cadarnhau ei bod yn dymuno derbyn y cyllid yn amodol ar yr amodau a nodir yn y cylchlythyr hwn.	Ydyw / Nac ydyw
Mae'r brifysgol yn cydnabod bod ganddi'r prosesau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i sicrhau mai dim ond i gefnogi gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r ODA y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio.	Ydyw / Nac ydyw
Llofnod Is-Ganghellor	
Dyddiad	

Sefydliad: xxx

Rhestr y prosiectau a gefnogwyd						Cyllid a ddyranwyd		
Dynoddd prosiect unigryw	Teitl y prosiect	Crynodeb o'r prosiect	DAC o fudd i genhedloedd	Sefydliadau sy'n cymryd rhan (mewn Gwlad DAC)	Sefydliadau sy'n cymryd rhan (mewn Gwlad nad yw'n DAC)	Cost Prosiect Unigol (£)	Blwyddyn Ariannol	Adroddiad cynnydd / Risgiau sylweddol
							2023/24	
							2023/24	
							2023/24	
							2023/24	
							2023/24	
							2023/24	
Cyfanswm								

Sefydliad:

Rhestr y prosiectau a gefnogwyd						Cyllid a ddyranwyd			
Dynoddd prosiect unigryw	Teitl y prosiect	Crynodeb o'r prosiect	DAC o fudd i genhedloedd	Sefydliadau sy'n cymryd rhan (mewn Gwlad DAC)	Sefydliadau sy'n cymryd rhan (mewn Gwlad nad yw'n DAC)	Cost prosiect unigol (£)	Blwyddyn Ariannol	Adroddiad cynnydd 2 / Risgiau sylweddol	Adroddiad cynnydd 3 / Risgiau sylweddol
							2024/25		
							2024/25		
							2024/25		
							2024/25		
							2024/25		
							2024/25		
Cyfanswm									